Hawdd ei Ddeall

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Comisiwn y Senedd

## Ein cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2022 i 2026




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Senedd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Crynodeb o Gomisiwn y Senedd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-2026.**

**Tachwedd 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod eisiau help i'w darllen Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabd i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eisiau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 15**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Senedd Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** https://senedd.cymru

**E-bost:** Contact@senedd.wales

**Ffôn:** 0300 200 6565

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ferswin hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma ........................................ 2

Cyflwyniad ........................................................................ 4

Ein gwerthoedd ................................................................. 7

Ein nodau ........................................................................... 8

Beth sydd yn digwydd nesaf ............................................ 14

Geiriau Anodd .................................................................. 15

# Cyflwyniad



Grŵp o bobl ydy **Comisiwn y Senedd** sydd yn gweithio gyda'i gilydd i edrych dros waith y **Senedd**.



Y **Senedd** ydy Senedd Cymru.

Mae'r Senedd yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'n:




- gwneud deddfau i Gymru



- cytuno pa drethi ddylai fod yng Nghymru




- ac yn gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei waith yn iawn.

**Mae Comisiwn y Senedd yn gweithio i:**



- Helpu i wneud y Senedd yn senedd gryf sydd yn meddwl ymlaen.




- Helpu i wneud y Senedd yn **hygyrch** ac yn **gynhwysol.**



> Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn gallu cael neu yn gallu defnyddio rhywbeth ac yn gallu cymryd rhan.
>
> Mae **cynhwysol** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a bod gan bawb gyfle teg.



- Rheoli staff, eiddo a gwasanaethau'r Senedd.



Mae Comisiwn y Senedd yn cynnwys:

- **Y Llywydd** – y person sydd yn ben
- a 4 aelod o wahanol bleidiau gwleidyddol.



Hawdd ei Ddeall

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Comisiwn y Senedd

Ein cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2022 i 2026

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Senedd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Crynodeb o Gomisiwn y Senedd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-2026.**

**Tachwedd 2022**

Mae'r ddogfen yma am sut y byddwn ni yn gweithio i wneud yn siŵr bod y Senedd yn **amrywiol** ac yn cynnwys yr holl bobl.



Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydy pawb yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau ac yn dda am wneud pethau gwahanol.

# Ein gwerthoedd




Gwerthoedd ydy'r pethau rydyn ni'n meddwl sydd yn bwysig inni. Mae'n nhw'n helpu i arwain sut rydyn ni'n ymddwyn a gweithio.

**Ein gwerthoedd ydy:**



**Parch.** Rydyn ni yn garedig. Rydyn ni yn cynnwys pawb. Rydyn ni yn gwerthfawrogi pobl.



**Angerdd**. Rydyn ni yn cefnogi **democratiaeth**. **Democraiaeth** ydy hawl pobl i ddewis eu harweinwyr i redeg y llywodraeth drwy etholiadau rhydd a theg. Rydyn ni eisiau gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru.




**Balchder**. Rydyn ni'n rhoi cynnig ar bethau newydd. Rydyn ni'n dathlu beth rydyn ni wedi ei gyflawni.

# Ein nodau

Dros y 4 blynedd nesaf fe fyddwn ni yn canolbwyntio ar 4 nod.

## Nod 1. Gwneud yn siŵr bod ein gwaith a'n cynlluniau yn cefnogi **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.

**Beth fyddwn ni yn ei wneud:**




- Fe fyddwn ni yn ysgrifennu cynlluniau i wneud ein gwaith yn **amrywiol** a **chynhwysol**.




- Fe fyddwn ni yn edrych i weld bod y cynllun yn cael ei ddefnyddio ac yn gweithio.




- Fe fyddwn ni yn gwneud gwell defnydd o'r wybodaeth rydyn ni yn ei gasglu.



- Fe fyddwn ni yn gweithio gyda chyrff partner eraill i barhau i wella

## Nod 2. Gwella arweinyddiaeth a sut rydyn ni'n gweithio



Rydyn ni eisiau i **arweinwyr** ac aelodau bwrdd gredu go iawn mewn **cynhwysiant**.



Fe fyddwn ni yn hyfforddi **arweinwyr** ac aelodau am decwch a pha mor bwysig ydy cynnwys pobl.

**Beth fyddwn ni yn ei wneud:**



- Fe fyddwn ni yn rhoi hyfforddiant i bobl am decwch a chynnwys pobl yn y gwaith rydyn i yn ei wneud.



- Fe fyddwn ni yn annog ac yn cefnogi pobl o gefndiroedd **amrywiol** i gael llais yn y gwaith rydyn ni yn ei wneud.

## Nod 3. Gwneud ein gweithle yn amrywiol ac yn gynhwysol



Rydyn ni eisiau cael staff o wahanol gefndiroedd gyda gwahanol alluoedd a barn.




Rydyn ni eisiau i ragor o bobl wybod am Gomisiwn y Senedd a'n gwerthoedd.



Rydyn ni eisiau i'n staff gael y gefnogaeth i wneud eu gorau a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfaweogi.

**Beth fyddwn ni yn ei wneud:**




- Fe fyddwn ni yn dysgu oddi wrth yr wybodaeth rydyn ni yn ei gasglu a gwneud yn siŵr bod gennym ni gynllun i weithio yn deg yn y dyfodol.



- Fe fyddwn ni yn dysgu gwersi o'r ffyrdd newydd o weithio.



- Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod rhagor o bobl yn gwybod am Gomisiwn y Senedd a beth rydyn ni yn ei wneud.



- Fe fyddwn ni yn gwella sut rydyn ni'n gweithio i gynyddu **amrywiaeth**.

## Nod 4. Gwneud y Senedd yn fwy cynhwysol a hygyrch



Rydyn ni eisiau gwneud y Senedd yn **gynhwysol** a **hygyrch**. Rydyn ni eisiau i bobl sydd angen rhagor o gefnogaeth allu cymryd rhan yn ein gwaith.



Rydyn ni eisiau i bobl ddeall sut y mae gwaith y Senedd yn gallu effeithio arnyn nhw ac ar eu cymunedau.

**Beth fyddwn ni yn ei wneud:**



- Fe fyddwn ni yn cefnogi Aelodau'r Senedd i weithio mewn ffordd fydd yn cynnwys rhagor o bobl o gefndiroedd **amrywiol**.



- Fe fyddwn ni yn gweithio gyda rhagor o grwpiau **amrywiol** o bobl. Gwneud y Senedd yn fwy **hygyrch** mewn ffyrdd gwahanol.




- Fe fyddwn ni yn ysgrifennu gwybodaeth am y Senedd mewn ffyrdd gwahanol i ateb anghenion gwahanol pobl.



- Fe fyddwn ni yn cefnogi'r pwyllgor sydd yn ysgrifennu cynlluniau i fod yn deg ac yn **gynhwysol**.

# Beth sydd yn digwydd nesaf




Fe fyddwn ni yn ysgrifennu adroddiad am gydraddoldeb, Fe fydd yn cynnwys:

- ein nodau ar gyfer cydraddoldeb
- pwy ydy ein staff
- sut rydyn ni'n darganfod ac yn cyflogi staff Newydd. Sut mae staff yn cael eu talu ac os ydy hyn yn deg




Os ydych chi eisiau gwybodaeth mewn ffordd arall neu os oes gennych chi unrhyw syniadau i ychwanegu at ein cynllun, rydych chi'n gallu cysylltu gyda ni:



**E-bost:** diversity@senedd.wales

**Facebook:** www.facebook.com/cynulliadcenedlaetholcymru

**Twitter:**

https://twitter.com/CynulliadCymru

**Instagram:**

https://www.instagram.com/senedd/

# Geiriau Anodd

## Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn meddwl nad ydy pawb yr un fath, Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu yn dda am wneud pethau gwahanol.

## Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a bod gan bawb gyfle teg.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pawb yn gallu darganfod, cael neu ddefnyddio rhywbeth ac yn gallu cymryd rhan.